Cyllid & Thollau EM

Eich Siarter

Ein rhan

Rydym yn sicrhau fod yr arian ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus y DU drwy gasglu trethi a thollau fel y gosodir gan y Senedd. Rydym yn cynorthwyo teuluoedd ac unigolion gyda chefnogaeth ariannol wedi'i thargedu.

Rydym eisiau darparu gwasanaeth i chi sy'n deg, cywir ac wedi ei seilio ar gydymddiriedaeth a pharch. Rydym hefyd eisiau ei wneud cyn hawsed â phosibl i chi gael pethau'n iawn.

I ddarganfod mwy ynglŷn â'n Gweledigaeth ewch i www.hmrc.gov.uk/governance/vision.htm

Mae'r Siarter hwn yn esbonio beth allwch ddisgwyl oddi wrthym a beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi.

Eich hawliau

Gallwch ddisgwyl i ni:

1 Eich parchu
2 Eich cynorthwyo a'ch cefnogi i gael pethau'n iawn
3 Eich ystyried yn berson gonest
4 Eich trin yn deg
5 Bod yn broffesiynol ac ymddwyn gyda chywirdeb
6 Mynd i'r afael â phobl sy'n torri'r rheolau'n fwriadol a herio'r rheiny sy'n plygu'r rheolau
7 Gwarchod yr wybodaeth sydd gennym amdanoch a pharchu eich preifatrwydd
8 Derbyn y gall rhywun arall eich cynrychioli
9 Gwneud popeth a allwn i gadw'r gost o ddelio gyda ni cyn ised â phosibl.

Eich rhwymedigaethau

Byddwn yn disgwyl i chi:

1 I fod yn onest
2 I barchu ein staff
3 I gymryd gofal i gael pethau'n iawn.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â beth yr ydym yn ei wneud, eich hawliau, a ble y gallwch gael cymorth a chefnogaeth, dilynwch y cysylltiadau isod.

I ddarganfod:

- beth allwch wneud os ydych yn anfodlon â'n gwasanaeth neu'r ffordd yr ydym wedi eich trin
- sut yr ydym yn delio a gwybodaeth sydd gennym amdanoch
- beth allwch wneud os ydych yn anghytuno ag un o'n penderfyniadau
- beth yw ein safonau gwasanaeth parhaus

Rydym yn gweithio'n ofalus gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i'ch cefnogi. Ceir fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn yn www.direct.gov.uk.

Eich hawliau
Gallwch ddisgwyl i ni:

1 Eich parchu

Rydym yn cydnabod y gallech fod yn bryderus ynglŷn â sut fyddwn yn delio â chi.

Byddwn yn:
- eich trin gyda chwrteisi ac yn ystyriol
- gwrando ar eich pryderon
- ateb eich cwestiynau mewn ffordd y byddwch yn medru deall
- ceisio deall eich amgylchiadau
- eich gwneud yn ymwybodol o'ch hawliau, gan gynnwys eich hawl i apelio yn erbyn ein penderfyniadau
- dweud wrthych sut i ymarfer eich hawl i apelio yn erbyn ein penderfyniadau.

2 Eich cynorthwyo a'ch cefnogi i gael pethau'n iawn

Rydym eisiau rhoi i chi cymaint o sicrwydd a allwn eich bod yn talu neu'n hawlio'r swm cywir.

Byddwn yn:
- darparu gwybodaeth sy'n eich cynorthwyo i ddeall beth sydd angen i chi ei wneud a phryd sydd raid i chi ei wneud
- darparu gwybodaeth sy'n esbonio'n glir y trethi, tollau, eithriadau, lwfansau, rhyddhad a chredydau treth rydym yn gyfrifol amdanynt
- prosesu'r wybodaeth yr ydych yn rhoi i ni cyn gynted â, ac mor fanwl gywir, a allwn
- cywiro camgymeriadau cyn gynted â gallwn.

3 Eich ystyried yn berson gonest

Gwyddom fod y mwyafrif helaeth o bobl eisiau cael pethau'n iawn.

Oni bai fod gennym reswm i beidio, byddwn yn:
- cymryd yn ganiataol eich bod yn dweud y gwir
- derbyn y byddwch yn talu beth sydd yn ddyledus gennych ac yn hawlio'r hyn sydd gennych hawl iddo yn unig
- esbonio pam fod angen gofyn cwestiynau i chi a pham yr ydym wedi penderfynu gwirio eich cofnodion
- cwestiynu'r hyn yr ydych yn ei ddweud wrthym os oes gennym reswm da i wneud felly.

4 Eich trin yn deg

Byddwn yn deg yn y ffordd yr ydym yn delio gyda chi. Cymerwn i ystyriaeth eich amgylchiadau a darparu gwasanaeth cyson. Os ydych angen cymorth fe roddwn y gefnogaeth briodol fel y medrwch gwrdd â'ch rhwymedigaethau.

Byddwn yn:
- gweithredu o fewn y gyfraith a'r arweiniad a gyhoeddwyd gennym
- eich cynorthwyo i ddeall eich hawliau cyfreithiol
- esbonio beth allwch wneud os ydych yn anghytuno â'n penderfyniadau neu eisiau gwneud cwyn
- eich darparu â gwybodaeth mewn ffordd sy'n cwrdd â'ch anghenion penodol
- ystyried unrhyw anawsterau ariannol allech fod yn eu cael.

5 Bod yn broffesiynol ac ymddwyn gyda chywirdeb

Pryd bynnag yr ydych yn delio gyda ni byddwn yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd ac yn ymddwyn mewn ffordd broffesiynol.

Byddwn yn:
- ymddwyn gyda chywirdeb
- sicrhau eich bod yn cael sylw gan bobl sydd â'r lefel cywir o arbenigedd
- gwneud penderfyniadau yn unol â'r gyfraith a chyfarwyddyd cyhoeddedig a'u hesbonio'n glir i chi
- ymateb i'ch ymholiadau a datrys unrhyw broblemau cyn gynted ag y medrwn
- eich hysbysu o sut mae apeliadau, ymchwiliadau neu gwynion yn mynd yn eu blaen.

Eich hawliau
Gallwch ddisgwyl i ni:

6 Mynd i'r afael â phobl sy'n torri'r rheolau'n fwriadol a herio'r rheiny sy'n plygu'r rheolau

Mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn onest ac yn cael pethau'n iawn. Rydym eisiau eu hamddiffyn rhag effeithiau pobl sy'n torri'r rheolau yn fwriadol. Byddwn hefyd yn herio'r rheiny sy'n ceisio osgoi, yn plygu'r rheolau'n fwriadol. Fe wnawn drin wir gamgymeriadau, ymddwyn heb ofal rhesymol, a gweithrediadau sy'n fwriadol gamarweiniol yn wahanol i'w gilydd.

Byddwn yn:

- nodi pobl sydd ddim yn talu beth sy'n ddyledus ganddynt neu'n hawlio mwy nag y dylent
- adennill yr arian sy'n ddyledus oddi ganddynt a chodi llog a chosbau lle mae'n briodol
- gwahaniaethu rhwng ceisio'n gyfreithlon i dalu'r swm isaf, a phlygu'r rheolau drwy osgoi treth
- defnyddio ein pwerau'n rhesymol.

7 Gwarchod yr wybodaeth sydd gennym amdanoch a pharchu eich preifatrwydd

Rydym yn cydnabod bod gennym hawl freintiedig i weld eich gwybodaeth. Byddwn dim ond yn gofyn i chi am wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud ein gwaith. Fe ddiogelwn yr wybodaeth honno.

Byddwn yn:

- diogelu gwybodaeth yr ydym yn ei chael, ei derbyn neu'n ei dal ynglŷn â chi
- esbonio pam rydym angen gwybodaeth, os ydych yn gofyn i ni wneud hynny
- caniatáu ein staff i weld gwybodaeth dim ond pan fod ei hangen arnynt i wneud eu gwaith
- eich darparu â'r wybodaeth sydd gennym ynglŷn â chi pan ofynnwch amdani, cyn belled â bod y gyfraith yn ein caniatáu i wneud hynny
- rhannu neu ryddhau gwybodaeth ynglŷn â chi dim ond pan fo'r gyfraith yn ein caniatáu, a phan fod angen i ni
- parchu eich hawliau cyfreithiol pan ydym yn ymweld â mannau busnes.

8 Derbyn y gall rhywun arall eich cynrychioli

Efallai byddwch eisiau rhywun arall i ddelio â ni ar eich rhan. I ddiogelu eich preifatrwydd, byddwn ond yn delio â nhw os ydynt wedi eu hawdurdodi i'ch cynrychioli.

Byddwn yn:

- parchu hawl eich cynrychiolydd i weithredu ar eich rhan a delio gyda nhw'n briodol.

Dylech wastad wirio fod gan eich cynrychiolydd y profiad a'r wybodaeth gywir i'ch cynorthwyo.

9 Gwneud popeth a allwn i gadw'r gost o ddelio gyda ni cyn ised â phosibl

Anelwn i gymryd cyn lleied o'ch amser a'ch arian ag y gallwn.

Byddwn yn:

- ceisio gwneud ein gwasanaethau yn syml a'n hawdd cael atynt
- ei wneud cyn rhated ag y gallwn i chi gysylltu â ni
- esbonio'n eglur beth yr ydym ei angen gennych
- gwneud ein gorau i roi cyngor cyflawn, cywir a cyson
- gwneud ein gorau i gael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Eich rhwymedigaethau
Byddwn yn disgwyl i chi:

1 I fod yn onest

Rydym angen i chi fod yn onest â ni. Os yw rhywun arall yn gweithredu ar eich rhan, rydym yn disgwyl iddynt fod yn onest hefyd.

Disgwyliwn i chi:

- fod yn ddidwyll, agored, a gweithredu o fewn y gyfraith
- roi gwybodaeth gywir i ni
- roi'r ffeithiau perthnasol i gyd i ni
- ddweud wrthym cyn gynted ag yr ydych yn meddwl eich bod wedi gwneud camgymeriad.

2 I barchu ein staff

Bydd ein staff yn eich parchu chi, a gofynnwn i chi eu parchu nhw hefyd. Os yw rhywun arall yn gweithredu ar eich rhan, rydym yn disgwyl yr un parch ganddynt hwy.

Disgwyliwn i chi:

- fod yn gwrtais
- dderbyn na fyddwn yn goddef ymddygiad digywilydd neu ymosodol.

3 I gymryd gofal i gael pethau'n iawn

Rydym angen i chi gymryd cyfrifoldeb dros gael pethau'n iawn, hyd yn oed os ydych wedi awdurdodi rhywun i weithredu ar eich rhan.

Disgwyliwn i chi:

- gymryd gofal rhesymol wrth gwblhau ffurflenni treth
- anfon ffurflenni treth atom yn brydlon
- wneud taliadau yn brydlon
- ymateb yn brydlon os ydym yn gofyn i chi i wneud rhywbeth
- siarad â ni os oes unrhyw beth nad ydych yn siŵr yn ei gylch neu os ydych yn cael anhawster cyflawni eich dyletswyddau
- ein hysbysu os oes gennych unrhyw anghenion penodol fel y medrwn eu hystyried
- ein hysbysu am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau a fydd yn effeithio ar eich taliadau neu geisiadau
- gadw cofnodion digonol sy'n cefnogi beth yr ydych yn dweud wrthym a'u cadw cyn hired ag y mae'r gyfraith yn dweud sydd rhaid i chi.